


# Strategaeth Rhianta Corfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr

## Ein Cynllun i chi...

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council



# Rhagair

Mae gan blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, a’r rhai sy’n gadael gofal, yr hawl i fod yn ddiogel, yn iach, i ddysgu, i gael ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau’n cael eu cynnig iddynt ac i ffynnu, yn union fel mae plant a phobl ifanc eraill. Ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, rydym wedi ymrwymo i weithio ar y cyd â’r holl sefydliadau i gyflawni ein cyfrifoldebau rhianta corfforaethol, a chefnogi ein plant a’n pobl ifanc, fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi ac yn cael eu gofalu amdanynt, ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial yn yr hyn y maent yn dewis ei wneud.

Mae ein strategaeth wedi’i chyd-gynhyrchu gyda grŵp o’n pobl ifanc profiadol gofal o’r enw Fforwm Llais Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr. Maent wedi bod yn cymryd rhan lawn wrth ddewis ein blaenoriaethau, a’r hyn y byddwn yn canolbwyntio ar wella, ynghyd â dyluniad a chynnwys y strategaeth. Ein hegwyddor sylfaenol yw ‘dim amdanoch chi hebddoch chi’ ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau cyfranogiad ystyrlon ym mhob agwedd ar ein gwaith rhianta corfforaethol.

Rwy’n falch iawn bod rhianta corfforaethol yn flaenoriaeth i gynifer o bartneriaid statudol ac anstatudol yn y fwrdeistref sirol. Fel cyngor, efallai mai ni yw’r asiantaeth arweiniol o ran strategaeth rianta corfforaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond rydym ond yn un partner sy’n gallu effeithio’n gadarnhaol ar fywydau ein plant. Rwy’n falch iawn bod ein partneriaid yn berchen ar y strategaeth yn llawn ac yn sicrhau bod blaenoriaethau’r strategaeth yn cael eu hadlewyrchu yn eu cynlluniau sefydliadol unigol.

Mae yna lawer o gynlluniau a strategaethau sy'n arwain ein gwaith a'n partneriaid. Mae rhai o'r rhain yn genedlaethol ac yn dod o Lywodraeth Cymru, mae eraill yn cael eu cytuno a'u cyhoeddi gan y sefydliadau sy'n rhieni corfforaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Maent yn cynnwys rhai o gyfreithiau Cymru fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rheoliadau Cynllunio Gofal ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae llawer o ganllawiau statudol hefyd.

Fel cyngor mae ein prif flaenoriaethau wedi'u cyhoeddi o fewn Cyflawni gyda'n Gilydd: Ein Cynllun Corfforaethol 2023-28. Un o'r blaenoriaethau hynny yw helpu pobl i gyflawni eu potensial.  Un o'r ffyrdd y byddwn yn gwneud hynny, yw drwy fod y rhieni gorau y gallwn ni a'n partneriaid fod, er mwyn cefnogi ein plant, a bydd y strategaeth hon yn ein helpu i wneud hynny.

Rwy'n arbennig o falch bod y strategaeth hon wedi cael ei harwain gan ein plant, a byddant yn rhoi gwybod i ni pa mor dda yr ydym yn ei wneud wrth gyflawni'r blaenoriaethau sydd ynddi.

**Cynghorydd Jane Gebbie**, *Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, Cadeirydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet, Cadeirydd, Bwrdd Rhianta Corfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr*





Beth yw

# Rhianta Corfforaethol?

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn dod i ofal y Cyngor, caiff y rôl o fod yn rhiant ei gymryd ymlaen gan yr awdurdod lleol ac mae rhai o'r cyfrifoldebau hefyd yn cael eu rhannu gyda sefydliadau eraill o ran iechyd neu addysgu - gelwir hyn yn Rhianta Corfforaethol.

Mae plentyn neu berson ifanc (0-16 oed) sydd, neu sydd wedi bod, yng ngofal awdurdod lleol (e.e. gofal maeth neu gartref plant) yn cael ei alw'n rhywun ***'sydd â phrofiad gofal'***. Mae person ifanc 16-25 oed sydd â phrofiad gofal yn cael ei adnabod fel rhywun ***'sy'n gadael gofal'***.



# Pwy
# Ydym ni...



Yn Mwrdeistref Sir Pen-y-bont ar Ogwr, ni yw'r arweinwyr a'r rheolwyr o wahanol adrannau a sefydliadau sy'n gweithredu fel rhieni corfforaethol ac sy'n cyfarfod yn rheolaidd, mewn cyfarfod o'r enw'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Rydym yn trafod sut y gallwn gydweithio i ddarparu plant a phobl ifanc sydd â phrofiad gofal, a'r rhai sy'n gadael gofal (ein plant a'n pobl ifanc) gyda'r holl bethau sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau hapus ac iach.

Rydym ni, y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, wedi cytuno i ganolbwyntio ein gwaith ar restr o'r pynciau pwysicaf, a elwir yn Flaenoriaethau, y penderfynwyd arnynt gan ein plant a'n pobl ifanc:

**Ein Blaenoriaethau**

| | |
|---|---|
| 1 | *Bod â llais.* |
| 2 | *Iechyd a lles da.* |
| 3 | *Cartref sefydlog, cyfforddus, diogel yn ystod gofal ac wedi hynny.* |
| 4 | *Cyflawniad addysgol, hyfforddiant, a chyflogaeth.* |
| 5 | *Barod ar gyfer byw'n annibynnol.* |
| 6 | *Dathlu cyflawniadau a digwyddiadau pwysig ein plant a'n pobl ifanc.* |

## Sut byddwn yn gwneud hyn ...?

Mae gennym grŵp o hyrwyddwyr a fydd yn edrych ar y blaenoriaethau'n fanwl ac fe fyddant yn cytuno ar gynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn iawn.

## Sut fyddwn ni'n gwybod os ydyn ni'n gwneud pethau'n iawn ...?

Byddwn yn mesur y gwaith rydym yn ei wneud ar bob blaenoriaeth gyda thargedau, a bydd y rhain yn cynnwys syniadau a barn ein plant a'n pobl ifanc. Bydd adroddiad yn cael ei ysgrifennu bob 12 mis i ddangos y cynnydd rydym wedi'i wneud gyda'n targedau a'r hyn y mae ein plant a'n pobl ifanc yn dweud am yr hyn y mae angen ei wella.





# Ein Cynllun **i chi**

Bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys yr hyn y byddwn ni, fel rhieni corfforaethol, yn ei wneud i'n plant a'n pobl ifanc ac mae wedi'i ysgrifennu i'n plant ei ddarllen a'n dwyn i gyfrif:

## Beth y gallem wneud i chi ...

- Byddwn ni'n gwrando ar eich meddyliau, eich dymuniadau a'ch teimladau ac yn gwneud yr hyn a allwn i wella o'r hyn a ddywedwch wrthym, a gweithio gyda chi i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â chi.
- Byddwn yn eich cefnogi i fanteisio i'r eithaf ar gymaint o gyfleoedd a phrofiadau ag y gallwn, ac yn eich helpu i gyrraedd eich llawn botensial.
- Byddwn yn eich adnabod a'ch canmol am eich llwyddiannau, a byddwn yn eich cefnogi i ddathlu digwyddiadau sy'n bwysig i chi.
- Byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wybod am eich hawliau, a'ch bod yn gallu cael gafael ar y wybodaeth hon o amrywiaeth o leoedd.



> **Byddaf yn hyrwyddo eich lleisiau, yn cefnogi sut rydych yn derbyn gofal ac yn sicrhau eich bod yn cael cyfle cyfartal i fwynhau bywyd creadigol, gweithgar.**
>
> **Richard Hughes**, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Awen

> **Rwy'n addo y byddaf yn hyrwyddo eich llais yn cael ei glywed a byddaf yn hyrwyddo eich barn i wneud newidiadau cadarnhaol yn y ffordd y gofelir amdanoch. Rwyf hefyd yn addo y byddaf yn atgoffa pawb o'u cyfrifoldeb i roi'r gofal gorau i chi yr ydych yn ei haeddu.**
>
> **Steve Berry**, Swyddog Rhianta a Chyfranogiad Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**"Byddaf yn darparu arweinyddiaeth effeithiol o'r cyngor i sicrhau bod ein rôl ar y cyd fel rhieni corfforaethol yn cael ei flaenoriaethu drwy gydol y sefydliad a bod pawb yn cael eu cefnogi i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i chi.**

**Mark Shephard**, Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Fe wna i addo na wnawn ni *'ddim byd amdanoch chi hebddoch chi.'* Byddwn yn clywed beth sy'n bwysig i chi ac yn gweithredu arno yn ein strategaethau a'n cynlluniau, yn ein hymarfer. Byddaf yn cefnogi hyfforddiant a datblygiad ein gweithlu fel bod ganddynt y sgiliau a'r amser i'w treulio gyda chi fel y gallwn eich cefnogi'n dda."**

**Claire Marchant**, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## Sut y byddwn yn gofalu amdanoch chi ...

- Byddwn yn eich cadw'n ddiogel, rhoi rhywle cyfforddus i chi fyw lle rydych yn derbyn gofal yn iawn, a sicrhau bod gennych bopeth sydd ei angen arnoch.
- Byddwn yn gwneud yn siŵr fod pawb sy'n gweithio gyda chi ac yn eich cefnogi wedi'u hyfforddi'n dda ac yn eich trin ag urddas a pharch.

**"Byddaf yn trin pob plentyn / person ifanc â pharch, yn dangos eu gwerth iddynt ac yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu caru a'u heisiau o fewn ein teulu. Byddaf yn amyneddgar ac yn ddeallus o ran eu cefndir, eu profiadau o fywyd a chredoau, a byddaf yn gwneud fy ngorau glas i'w helpu trwy'r heriau a ddaw yn sgil bywyd a'u cael i fod y fersiwn orau ohonynt eu hu-nain. Byddaf yn credu ynddynt ac yn bencampwr mwyaf iddynt, cyhyd ag y maen nhw fy angen i.**

**Rebecca Walsh**, Gofalwr Maeth Cyswllt



**Byddaf yn addo cynnig amgylchedd cefnogol a meithrin lle gallwch ddysgu sut i gadw eich hunain yn ddiogel a chael cyfle i dyfu a datblygu mewn gofod diogel."**

**Matthew Bradford**, Rheolwr yr Orsaf, Gweithrediadau,
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru



**"Byddaf yn hyrwyddo'r achos y bydd pawb yn cael eu trin yn deg, eu trin â pharch ac urddas, ac yn cael pob cyfle i dyfu a ffynnu i gyrraedd nodau ac uchelgais personol."**

**Y Cynghorydd Martyn Jones**, Maer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**"Byddaf yn ymrwymo i, ac yn gwrando ar bob person ifanc rwy'n cwrdd â hwy ac yn eu cefnogi. Er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu."**

**Dale Llewelyn**, Gweithiwr Cymdeithasol, Tîm Plant â Phrofiad Gofal,
Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

> Byddaf yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r hawl i gael mynediad teg i wasanaethau iechyd a lle mae bylchau wedi'u nodi, ymdrechu i ddarparu arweinyddiaeth gref i weithio gyda gwasanaethau iechyd, i wrando a gweithredu ar eich barn a'ch dymuniadau.

**Claire O'Keefe**, Pennaeth Diogelu, Diogelwch Cleifion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

> Byddaf yn parhau i wrando a hyrwyddo dy lais, a lle bo'n bosib yn hybu dy farn. I wneud newid cadarnhaol i'ch gofal, ac i beidio â gwneud addewidion na allaf eu cadw, ac i barhau i gydnabod eich cyflawniadau.

**Pat Whitehouse**, Gweithiwr Cymdeithasol, Tîm Plant â Phrofiad Gofal, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## Sut byddwn ni'n ystyried eich iechyd ...

- Byddwn yn eich cefnogi ac yn eich annog i gael mynediad i'r holl wasanaethau, gweithgareddau a chyfleoedd iechyd, ffitrwydd a lles sydd eu hangen arnoch neu'n dewis archwilio.
- Byddwn yn gadael i chi a'r bobl sy'n gofalu amdanoch chi wybod am yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gael bywyd iach.
- Gyda'ch cydsyniad, byddwn yn eich cefnogi i reoli eich meddyliau a'ch teimladau eich hun ac yn rhoi'r opsiwn i chi gael help ychwanegol yn ymwneud â'ch iechyd meddwl a'ch lles, os mai dyma ydych chi eisiau.

> Byddaf yn sicrhau bod gan staff yr ymwybyddiaeth briodol o anghenion pobl ifanc sydd â phrofiad gofal, i roi'r amser a'r gofod i'r bobl ifanc hynny rannu sut maen nhw'n teimlo a nodi pa gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Byddaf yn sicrhau bod staff yn cyfathrebu gyda thimau cefnogi ehangach i eiriol dros y bobl ifanc hynny.

**Samantha Gunnarsson**, Rheolwr Lles a Diogelu, Coleg Penybont



> Byddaf yn sicrhau fy mod i a fy nhîm yn gweld eich bywyd drwy lens sy'n cydnabod trawma, er mwyn i ni allu deall sut y gallwn eich cefnogi i fyw bywyd yn rhydd o droseddu, wrth eich helpu i gyflawni eich potensial.

**Kevin Reeves**, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Addysg a Chymorth Teuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

> Byddaf yn eich helpu chi a'ch teulu i gyflawni gwell iechyd meddwl.

**Adam Stevens**, Arbenigwr Ymyrraeth, Addysg a Chymorth Teuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

> Byddaf yn sicrhau bod y tîm nyrsio ysgolion yn cefnogi eich iechyd a'ch lles trwy ddarparu hyrwyddiad iechyd i'ch grymuso i wneud y dewisiadau gorau i chi wrth i chi dyfu.

**Victoria Powell**, Uwch Nyrs ar gyfer Nyrsio Ysgolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael gafael ar wybodaeth cefnogi sy'n gallu eu helpu i gyflawni eu canlyniadau dymunol. Rwy'n addo y byddaf yn dwyn ysgolion i gyfrif i ddarparu addysg mewn amgylchedd diogel a fydd yn helpu plant i ffynnu.

**David Wright**, Rheolwr Grŵp – Cymorth Grwpiau sy'n Agored i Niwed, Addysg a Chefnogi Teuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddaf yn gweithio'n ddiflino i sicrhau eich bod yn cael y cyfleoedd dysgu gorau posibl ac rydych yn elwa o gymorth o ansawdd uchel wedi'i bersonoli i roi sgiliau priodol i chi ar gyfer y dyfodol.

**Lindsay Harvey**, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chefnogi Teuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddaf yn hyrwyddo eich llais yn *nhîm Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr*, (ynghyd â thimau eraill), i'ch cefnogi, ac i ddatblygu cynllun gweithredu i gynyddu'ch cyfle o gael gwaith, cymwysterau galwedigaethol, a phrofiad gwaith i'ch helpu i sefydlu dyfodol cynaliadwy.

**Gemma Hayne**, Arweinydd Tîm Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfarwyddiaeth Cymunedau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## Beth fyddwn ni'n ei wneud i chi ym myd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ...

- Byddwn yn eich cefnogi i ymgysylltu a llwyddo mewn addysg, hyfforddiant, prentisiaethau, a chyflogaeth o'ch dewis.
- Byddwn yn darparu cyfleoedd addysg amgen i chi pan fyddwch eu hangen ac yn cefnogi eich cyflawniad a'ch ymgysylltiad er mwyn i chi gyrraedd eich llawn botensial.
- Byddwn yn eich gwneud yn ymwybodol o'r gwahanol gyfleoedd a dewisiadau mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar adeg sy'n berthnasol i chi, a byddwn yn eich cefnogi i gael mynediad at y rhain.

Rwy'n addo y byddaf yn chwilio am gyfleoedd profiad gwaith ledled y cyngor i'ch helpu i gael cipolwg ar eich llwybr gyrfa posib.  Rwyf hefyd yn addo i'ch cael yn barod am brentisiaeth drwy gyflwyno gweithdai i'ch arwain drwy'r broses ymgeisio am swyddi a chyfweliadau.

**Nikki Flower**, Rheolwr Dysgu a Datblygu Sefydliadol, Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddaf yn sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd i gael cymorth i'ch helpu i symud ymlaen a llwyddo yn y coleg. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gymorth ariannol, lles a dysgu y mae ei angen arnoch i'ch galluogi i fod yn bopeth y gallwch fod.

**Joe Baldwin**, Is-bennaeth, Uwch Dîm Arwain, Coleg Penybont





> Rwy'n addo y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu'r gwasanaethau cywir i ddiwallu eich anghenion o fewn yr amser cywir, gan archwilio'r opsiynau tai mwyaf priodol sy'n addas i chi. Rwy'n addo ceisio eich atal rhag bod yn ddigartref trwy weithio gydag eraill i'ch atal rhag gorfod cael mynediad at wasanaethau i'r digartref.

**Martin Morgans**, Pennaeth Gwasanaethau Partneriaeth, Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

> Byddaf yn cefnogi eich mam a'ch tad pan na allwch chi fyw gyda nhw. Byddaf yn helpu eich rhieni i allu cyfrannu at brofiad cadarnhaol pan fyddwch yn treulio amser gyda nhw.

**Kayleigh Roper**, Gweithiwr Cymdeithasol Ar Ymyl Gofal, Addysg a Chymorth Teuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## Beth fyddwn ni'n ei wneud ar eich cyfer i'ch helpu i fyw'n annibynnol ...

→ Byddwn yn gweithio gyda chi i ddeall eich anghenion tai a gwneud cynlluniau er mwyn i ni allu eich cefnogi.

→ Byddwn ni'n eich helpu gyda'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch chi, a datblygu llwybr clir o gefnogaeth i chi allu byw'n annibynnol.

→ Byddwn yn cryfhau'r gefnogaeth sy'n cael ei rhoi gan eich holl rieni corfforaethol; Gwella'r cyswllt sydd gyda ni gyda chi a byddwn yn cadw mewn cysylltiad i weld sut ydych chi ar ôl i chi droi'n 18 oed.



> Byddaf yn parhau i ddod â'r holl sefydliadau at ei gilydd i weithio ar eich rhan i sicrhau eich bod yn cael y cyfleoedd gorau ac yn teimlo eich bod yn cael eu gwerthfawrogi gyda phwy bynnag rydych chi'n byw gyda nhw.

**Y Cynghorydd Jane Gebbie**, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

> Gwnaf fy ngorau i roi mwy o ddewis i chi am leoliadau, a chefnogi sefydlogrwydd yn y lleoliad a'ch galluogi i gael parhauster cyn gynted â phosibl.

**Alex Fitzpatrick**, Prif Swyddog Gwasanaethau Lleoliadau a Darparwyr, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

> Byddaf yn gwneud yn siŵr bod gennych y bobl gywir i'ch cefnogi, dathlu eich cyflawniadau, datblygu eich diddordebau / hobïau eich hun, eich cefnogi drwy addysg / gwaith / hyfforddiant ar gyfer eich dyfodol, ac yn anad dim i'ch cyrraedd a'ch cefnogi chi i gadw'n ddiogel a bod yn iach.

**Dominque Lima**, Ymgynghorydd Personol, Tîm 16+, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar

# Beth os nad ydych yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth yr ydym yn ei gynnig ...?

Mae gennych hawl i godi llais a chodi llais am unrhyw beth rydych chi eisiau ei stopio neu ei newid. Gallwch wneud hyn drwy siarad ag unrhyw un o'r bobl isod:





- **Eich gofalwr/gofalwyr**
- **Athrawon**
- **Gweithiwr ieuenctid**
- **Nyrs / meddyg**
- **Gweithiwr allweddol, gweithiwr cymdeithasol, ymgynghorydd personol**

Os ydych yn teimlo eich bod eisiau siarad â rhywun sy'n annibynnol o'r bobl uchod, a fydd ond yn gweithio i'ch barn, dymuniadau a theimladau, gallwch ofyn am gael eiriolwr annibynnol oddi wrth sefydliad **Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru**.

Gallwch ofyn i unrhyw un o'r bobl uchod drefnu i chi gael eiriolwr annibynnol, neu gallwch gysylltu â TGP Cymru'n uniongyrchol eich hun:

Rhif rhadffôn: **0800 4703930**

Gwefan: **www.tgpcymru.org.uk/cy**

Rhif Ffôn: **01443 805940**

E-bost: **cwmtafmorgannwg@tgpcymru.org.uk**



tgp CYMRU
PLANT A THEULUOEDD
CHILDREN AND FAMILIES

# Ein Haddewidion Ychwanegol i chi ...

Fe wnaethom ni, y *Bwrdd Rhianta Corfforaethol*, drefnu **Digwyddiad Addewid** ym mis Mawrth ar gyfer rhieni corfforaethol i wneud eu haddewid i'w plant a phobl ifanc.

Y tudalennau canlynol yw'r Addewidion a wnaed gan rieni corfforaethol o wahanol sefydliadau ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:



**"Byddaf yn ceisio meddwl am blant a phobl ifanc sydd â phrofiad gofal ym mhob penderfyniad mawr a wnawn fel cyngor."**

**Y Cynghorydd Huw David**, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**"Byddaf yn cefnogi ein plant a phobl ifanc sydd â phrofiad gofal i fod â mwy o brofiad bywyd o ran y pethau sy'n bwysig iddyn nhw... eu cysylltu ar draws ein cymunedau a'u cefnogi i fod yn berchen ar eu lles."**

**Andrew Thomas**, Rheolwr Grŵp Atal a Lles, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**"Byddaf bob amser yn eiriol ac yn cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial a manteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer hyn wrth wneud cynnydd a gwella canlyniadau."**

**Gail Biggs**, Tîm Ymgysylltu Addysg, Cyfarwyddiaeth Addysg a Chefnogi Teuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**"Byddaf yn hyrwyddo ymgysylltu plant sydd â phrofiad gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn y broses ddemocrataidd er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'n bod yn gwrando arnynt, er mwyn llywio'r penderfyniadau mwy sy'n effeithio arnyn nhw."**

**Rachel Keepings**, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



**"Byddaf yn hwyluso fforwm ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad gofal, a phobl ifanc sy'n gadael gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn rhoi lle i chi gwrdd ag arall a sicrhau y gallwch rannu eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau, a rhannu eich syniadau am sut i wella pethau. Byddaf hefyd yn sicrhau fy mod yn dweud wrthych beth sydd wedi'i wneud gyda'ch gwybodaeth a'r hyn sydd wedi'i newid."**

**Zoe Morgan**, Gweithiwr Cyfranogiad, TGP Cymru

**"Byddaf yn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â'r rhai sy'n gadael gofal, yn gallu cael mynediad at wasanaethau eiriolaeth o ansawdd da ac ymatebol ar yr adeg ac mewn lle sy'n gyfleus iddynt."**

**Megan Davies**, Rheolwr Gwasanaethau Eiriolaeth, TGP Cymru

Byddaf bob amser yn addo bod yn hawdd dod ataf ac yn ddeallgar bob amser, i'ch helpu chi ac i'ch arwain mewn unrhyw sefyllfa rydych chi'n ei hwynebu. Byddaf yn addo i fod yn gynhwysol ac yn agored fy meddwl ac yn rhoi'r gefnogaeth orau bosibl i chi.

**Jessica Haskins**, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Plismona Cymdogaeth, Heddlu De Cymru

Byddaf yn fodel rôl bositif yn eich bywyd. Byddaf yn gwrando arnoch ac yn eich annog. Byddaf yn eich cefnogi i wneud dewisiadau cadarnhaol ac i'ch llais gael ei glywed.

**Rhiannon Shearon**, Uwch Weithiwr Gofal Preswyl, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddaf yn sicrhau bod gan ein staff y wybodaeth gywir er mwyn rhoi cyngor a chefnogaeth gyson fel bod ein pobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau i lwyddo a bod yn bopeth y gallant fod.

**Matthew Rees**, Pennaeth Cynorthwyol, Uwch Dîm Arwain, Coleg Penybont



Byddaf yn hyrwyddo llais ieuenctid ar ran yr holl bobl ifanc, ac yn darparu cymorth a gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan anghenion sy'n hygyrch i bobl ifanc Pen-y-bont ar Ogwr, gan wneud yn siŵr bod mannau diogel i bobl ifanc gymdeithasu a dweud eu dweud.

**Lois Sutton**, Hawliau Plant a Chyfranogiad, Tîm Datblygu Ieuenctid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddaf yn cefnogi fy nhîm i wrando arnoch, i ddarparu cymorth fel bod ganddynt amser i dreulio gyda chi a deall beth rydych chi ei eisiau gan ein gwasanaethau. Byddaf yn eich cynnwys wrth ddatblygu ein gwasanaeth er mwyn sicrhau mai'r gefnogaeth rydyn ni'n ei gynnig yw'r hyn rydych chi ei eisiau a'i angen.

**Alex Williams**, Rheolwr Tîm Gofal, Addysg a Chymorth Teuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddaf yn sicrhau fy mod yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol yn eich bywyd ac yn gwneud pawb yn ymwybodol o'ch dymuniadau a'ch dyheadau. Byddaf yn gwrando ar eich barn ac yn gweithredu cynlluniau i'ch cefnogi i gyrraedd eich targedau. Byddaf yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'n canlyniadau ac maen nhw'n eich cefnogi chi i gyrraedd eich llawn botensial.

**Debra Evans**, Rheolwr Gwasanaethau Plant Preswyl, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



**Byddaf yn addo ymgysylltu â phobl ifanc a gwrando ar eu pryderon, a gwneud fy ngorau i helpu unrhyw un sydd ei angen.**

**Ashleigh Ogston**, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Plismona Cymdogaeth, Heddlu De Cymru

**Byddaf yn sicrhau bod gennym bolisi i fynd i'r afael â'ch anghenion, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn a ddywedon ni; sicrhau ein bod yn darparu adnoddau i ddiwallu'ch angen a nodwyd; sicrhau fod eich llais yn cael ei glywed wrth i ni gytuno ar bolisïau.**

**Y Cynghorydd Neelo Farr**, Aelod Cabinet dros Adfywio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Byddaf yn gwrando ac yn hyrwyddo barn er mwyn gwneud newidiadau cadarnhaol a gofalu amdanoch chi. Byddaf hefyd yn helpu eraill gyda'u cyfrifoldebau er mwyn cael yr hyn yr ydych yn ei haeddu.**

**Kerry Galton**, Gofalwr Maeth Cyswllt

**Rwy'n gweithio mewn dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn sicrhau fy mod yn darparu cyfleoedd cyfartal er mwyn i ddymuniadau a theimladau plant gael eu clywed, ac mae eu lleisiau yn ganolog i'r holl asesiadau sydd i'w cwblhau. Byddaf yn parhau i weithio drwy gyd-gynhyrchu gyda phlant, teuluoedd ac asiantaethau allweddol er mwyn hyrwyddo lles plant a chanlyniadau cadarnhaol i blant.**

**Gemma Doherty**, Gweithiwr Cymdeithasol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Byddaf yn gwrando'n weithredol ar leisiau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad gofal, a'r rhai sy'n gadael gofal, gan roi lle diogel a chyfle iddynt i fynegi eu pryderon yn agored heb farnu. Rwyf am roi'r hyder iddyn nhw y bydd eu cwynion yn cael eu cymryd o ddifrif a byddant yn cael eu hystyried yn llawn.**

**Sarah Tripp**, Rheolwr Canmoliaeth a Datrys Cwynion, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Byddwn yn gwrando ar, cynnwys ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i helpu i ddylunio a chaffael gwasanaethau o ansawdd uchel, gan wneud pethau'n iawn y tro cyntaf, ar amser, bob tro.**

**Jade Jones**, **Cheryl Thomas**, a **Darcy Grave**, Tîm Comisiynu, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr





Byddaf yn gwneud yn siŵr bod fy nhîm yn dal eich llais yn yr holl waith y maent yn ei wneud. Rwyf hefyd yn addo y bydd fy nhîm yn gwneud eu gorau glas i roi'r gefnogaeth, y cyngor a'r arweiniad gorau i chi ac yn eich helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

**Stuart Osbourne**, Rheolwr Tîm 16+,
Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddaf yn cyd-ddylunio darpariaeth gyda phlant sydd â phrofiad gofal. Gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, a'u bod yn cael effaith ar y gwasanaethau dwi'n eu darparu sy'n effeithio arnynt.

**Lily Gallagher**, Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd, Atal a Lles,
Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddaf yn cefnogi ac yn annog unrhyw blentyn sydd yn ein gofal i sicrhau'r canlyniadau gorau / priodol ar eu cyfer. Rydym wastad yna iddyn nhw waeth beth!

**Rose White** a **Graham Clifford**, Gofalwyr Maeth

Byddaf yn ymrwymo i godi proffil ac ymwybyddiaeth o'r rôl allweddol y mae'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn ei chwarae ym mywydau plant a phobl ifanc.

**Nicola Fedyszyn**, Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata Dros Dro,
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddaf bob amser yn hyrwyddo, a bod yn bencampwr i'n holl bobl ifanc gan ganiatáu iddynt gyflawni eu nodau.

**Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell**, Aelod Cabinet, Addysg,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddaf yn sicrhau y byddaf yn gwrando. Yn sicrhau eich bod yn cael y mynediad at y cyfleoedd gorau posib, yr un fath ag unrhyw blentyn arall. Ac rwy'n addo dathlu eich holl gyflawniadau – p'un a ydynt yn fawr neu'n fach.

**Nic Morgan**, Gweithiwr Cymdeithasol,
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddaf yn cefnogi fy nhîm i sicrhau bod rhywun yn gwrando arnoch ac yr eiriolir ar eich rhan. Byddaf yn sicrhau bod pob opsiwn yn cael ei archwilio a bod popeth yn cael ei wneud i sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r cymorth ariannol a lles sydd ar gael.

**Caroline McCarthy**, Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr,
Coleg Penybont





“Byddaf yn defnyddio fy rôl i godi ymwybyddiaeth o blant sydd â phrofiad o ofal. Hapus i ddarparu diwrnod profiad fferm / wyna i unrhyw blentyn sydd â phrofiad gofal.

**Y Cynghorydd Hywel Williams**, Aelod Cabinet dros Adnoddau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



“Byddaf yn addo eich gwneud yn ymwybodol o'ch hawliau a hyrwyddo hawliau plant. Byddaf yn addo i'ch cefnogi i gael mynediad at gyfleoedd i gael eich llais wedi clywed, a'ch barn wedi gweithredu.

**Claire Davies**, Tîm Hawliau Plant a Chyfranogiad,
Tîm Datblygu Ieuenctid,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddaf yn ymrwymo i ddarparu / hwyluso lles tymor hir a dyfodol yr holl blant sy'n derbyn gofal, nid yn unig ym Mhen-y-bont ar Ogwr ond Maethu Cymru, trwy hyrwyddo, cefnogi, tiwtora a bod yno pan fo angen i wireddu fy addewid.”

**Ian Suggitt**, Gofalwr Maeth Cyswllt

“Byddaf yn cefnogi fy nhîm i sicrhau bod rhywun yn gwrando arnoch ac yr eiriolir ar eich rhan. Byddaf yn sicrhau bod pob opsiwn yn cael ei archwilio a bod popeth yn cael ei wneud i sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r cymorth ariannol a lles sydd ar gael.”

**Caroline McCarthy**, Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr, Coleg Penybont

“Byddaf yn ymgysylltu a gwrando ar bobl ifanc; byddaf yn ceisio deall anghenion y person ac yn eu helpu cymaint ag y gallaf yn fy rôl fel swyddog heddlu.

**Andrew Purser**, Swyddog Heddlu,
Plismona Cymdogaeth, Heddlu De Cymru

